EDWARDS, RICHARD FOULKES ('Rhisiart Ddu o Wynedd '; 1836 - 1870), bardd

Enw: Richard Foulkes Edwards
Ffugenw: Rhisiart Ddu O Wynedd
Dyddiad geni: 1836
Dyddiad marw: 1870
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Elwyn Evans

Ganwyd 14 Ionawr 1836 yn ardal Bodfari. Symudodd oddi yno gyda'i rieni i Blas Llanychan, Rhuthyn. Dechreuodd farddoni pan oedd yn ifanc, ac yn 1856 daeth yn ail yn eisteddfod Bangor am ei awdl, ' Yr Amaethwr.' Yn 1858 cyhoeddwyd cyfrol o'i farddoniaeth, *Y Blaenffrwyth*, gan Thomas Gee, Dinbych. Enillodd gadair eisteddfod Llandudno yn 1864 am ei awdl ' Ioan yn Ynys Patmos,' ac yn eisteddfod Aberystwyth yn 1865 enillodd wobr am ' Draethawd Beirniadol ar Eben Fardd a'i Athrylith. ' Yn 1869, yn eisteddfod Lerpwl, enillodd gadair am ei farwnad i'r Parch. Henry Rees. Bu am ysbaid yn ysgrifennydd i gyfreithiwr yn Rhuthyn ac wedi hynny i Thomas Gee yn Ninbych. Aeth i Goleg yr Annibynwyr yn y Bala i baratoi am y weinidogaeth, a chafodd alwad i fugeilio eglwys Mynyddislwyn, sir Fynwy. Ni dderbyniodd yr alwad, ond yn Mai 1867 aeth at ei rieni i'r Unol Daleithiau, ac yno, yn Oskosh, Wisconsin, y bu farw ar 8 Mawrth 1870.

Awdur

Elwyn Evans

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Notable Welshmen (1700–1900) (1908)

Y Traethodydd, 1903, 299

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Richard Foulkes Edwards (Risiart Ddu o Wynedd)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734275

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu